Funded by
UK Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

*This project is funded by the UK government through the UK Shared Prosperity Fund.*

# Datblygu cais am gyllid





Uchelgais Gogledd Cymru

Ambition North Wales

# Ymwadiad

Bydd y canllaw canlynol yn rhoi syniad i chi o'r math o wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn ceisiadau am gyllid. Gellir trosglwyddo'r wybodaeth hon rhwng ceisiadau ac os gallwch ddarparu/datblygu/ateb y cwestiynau neu ganllawiau isod, yna dylai fod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais arferol am gyllid.

Mae'n HOLLBWYSIG eich bod yn darllen y canllawiau penodol ar gyfer cyllid a'ch bod yn deall nodau ac amcanion y gronfa honno er mwyn i chi allu teilwra eich cais yn briodol.

Dylech nodi hefyd y bydd pob cyllidwr yn gofyn cwestiynau gwahanol - bydd angen i chi ddarllen a deall y cwestiwn penodol ac yna datblygu eich ateb yn seiliedig ar y wybodaeth a awgrymir isod.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales



# Datblygu Cais am Gyllid

Pan fyddwch wedi datblygu dogfen sy'n darparu amlinelliad o'r prosiect a'ch bod wedi dilysu eich syniadau gydag astudiaeth ymarferoldeb, mae'n bosibl y byddwch am chwilio am gyllid grant er mwyn datblygu'r prosiect ymhellach.

Bydd y ddogfen hon yn eich helpu i feddwl am y wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnoch ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid a rhoi syniad i chi o'r wybodaeth y dylech ei chynnwys yn eich cais/ceisiadau.

**Y peth pwysicaf i'w wneud yw darllen unrhyw nodiadau canllaw sydd wedi'u rhyddhau gan y cyllidwr.**

Bydd gan y rhan fwyaf o gyllidwyr gyfres o gwestiynau y byddant eisiau i chi eu hateb mewn proses bwrpasol ar gyfer gwneud cais.

Dolen i ddogfen amlinellol y prosiect

Bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei dadansoddi yn ôl y 5 achos a ganfuwyd mewn achos busnes:

- Achos Strategol
- Achos Economaidd
- Achos Masnachol
- Achos Ariannol
- Achos Rheoli

Fodd bynnag, ni fydd pob cyllidwr yn dilyn y fformat hwn, ac efallai y bydd gan gyllidwyr rai cwestiynau sy'n rhychwantu nifer o achosion neu elfennau felly, unwaith eto, mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllawiau a'r cwestiynau.

Efallai y bydd rhai ceisiadau am gyllid gan y sector cyhoeddus yn dilyn strwythur achos busnes mwy ffurfiol. Yn y sefyllfa hon, i ddatblygu achos busnes llawn ar gyfer cyllid, dylech ddilyn **Model Busnes 5 Achos Trysorlys EM**. Dilynwch y cod QR i gael arweiniad manwl ar y broses.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Achos Strategol

Mae elfen strategol prosiect yn bwysig ar gyfer cyflwyno'r sefyllfa, esbonio pam eich bod yn gwneud y prosiect hwn, ei drafod mewn cyd-destun ehangach, esbonio beth yr ydych eisiau ei gyflawni a sut y byddwch yn ei gyflawni, yn ogystal â rhai o'r risgiau a allai eich atal rhag cyflwyno'r prosiect yn ôl y bwriad.

| | |
|---|---|
| **Cwmpas y Prosiect** | Dylai bod gennych syniad o gwmpas eich prosiect erbyn hyn - sef ffiniau eich prosiect. Mae esbonio cwmpas yn gynnar yn bwysig iawn; os na fydd gennych syniad clir o beth yw eich prosiect, efallai y bydd yn tyfu a newid mewn ffyrdd nad ydych wedi'u cynllunio nac wedi cyllidebu ar eu cyfer! |
| **Amcanion y Prosiect** | Os ydych yn gwybod beth yr ydych eisiau ei wneud, dylai fod gennych syniad da pam eich bod am ei wneud. Y rhain yw eich amcanion. Pam eich bod yn gwneud y prosiect hwn, yr hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni a sut y byddwch yn ei gyflawni? Peidiwch ag anghofio bod angen i'ch amcanion fod yn rhai CAMPUS! |
| **Allbynnau'r Prosiect** | Allbynnau yw'r peth(au) a fydd yn cael ei gyflawni/eu cyflawni, gallai hyn fod yn dechnoleg neu'n broses, swyddi newydd neu gamau i leihau carbon. |

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Achos Strategol

Mae elfen strategol prosiect yn bwysig ar gyfer cyflwyno'r sefyllfa, esbonio pam eich bod yn gwneud y prosiect hwn, ei drafod mewn cyd-destun ehangach, esbonio beth yr ydych eisiau ei gyflawni a sut y byddwch yn ei gyflawni, yn ogystal â rhai o'r risgiau a allai eich atal rhag cyflwyno'r prosiect yn ôl y bwriad.

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau'r Prosiect** | Y canlyniadau yw'r newid a fydd yn deillio o'r allbynnau, gallai hyn gynnwys y swyddi a grëwyd neu arbedion carbon. |
| **Buddion y Prosiect** | Y fantais/enillion mesuradwy/'peth' cadarnhaol a gyflawnwyd oherwydd y prosiect, er enghraifft cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau Mae angen i'r buddion fod yn ddiriaethol a realistig. Dylech fod yn meddwl sut yr ydych yn mynd i gadw golwg arnynt wrth i'r prosiect ddatblygu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. |
| **Cyd-destun y Prosiect** | Dylai eich prosiect gysylltu â pholisïau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol cymaint â phosibl. Meddyliwch am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, targedau Sero Net a mentrau eraill sy'n digwydd yn eich ardal leol. |

# Achos Strategol

Mae elfen strategol prosiect yn bwysig ar gyfer cyflwyno'r sefyllfa, esbonio pam eich bod yn gwneud y prosiect hwn, ei drafod mewn cyd-destun ehangach, esbonio beth yr ydych eisiau ei gyflawni a sut y byddwch yn ei gyflawni, yn ogystal â rhai o'r risgiau a allai eich atal rhag cyflwyno'r prosiect yn ôl y bwriad.

| | |
|---|---|
| **Cymuned y Prosiect** | Mae hwn hefyd yn amser da i siarad am y gymuned - sut maen nhw'n teimlo am y prosiect, ac ydyn nhw wedi cael dweud eu dweud? A fyddant yn elwa o'r prosiect hwn? Mae hyn yr un mor bwysig i brosiectau sector preifat ag ydyw i brosiectau cymunedol. |
| **Dibyniaethau'r Prosiect** | Dylech hefyd nodi unrhyw beth y mae eich prosiect yn dibynnu arno - os yw eich prosiect am ddatblygu clwb ar ôl ysgol, yna rydych yn dibynnu ar gadw'r ysgol ar agor. Hebddo, mae'r cyfiawnhad dros eich prosiect yn sylweddol wannach. |
| **Risgiau'r Prosiect** | Dylai fod gennych gofrestr risg o waith amlinellol eich prosiect, gan amlygu risgiau a mesurau lliniaru allweddol - mae'n bwysig diweddaru hon. |

# Achos Economaidd

Mae achos economaidd prosiect yn edrych ar werth am arian. Mae unrhyw gyllid y gwnewch gais amdano yn gystadleuol ac mae'n rhaid ei gyfiawnhau - a fydd yr arian yn creu mwy o fanteision a chyfleoedd gyda'ch prosiect nag eraill?

Mae achos economaidd prosiect yn edrych ar werth am arian. Mae unrhyw gyllid y gwnewch gais amdano yn gystadleuol ac mae'n rhaid ei gyfiawnhau - a fydd yr arian yn creu mwy o fanteision a chyfleoedd gyda'ch prosiect nag eraill?

Yn gyntaf, mae angen i chi egluro sut y daethoch i'r penderfyniad i wneud beth bynnag yr ydych yn ei gynnig. Beth oedd yr opsiynau eraill y gwnaethoch eu harchwilio a pham wnaethoch chi eu diystyru?
Oedden nhw'n:

- Rhy ddrud
- Dim yn ddigonol i gyflawni eich amcanion
- Dim yn bosibl oherwydd pryderon cynllunio neu reoleiddiol
- Nid yr hyn oedd ei angen ar y gymuned/cynulleidfa ehangach?

Yn yr un modd, dylech allu cyfiawnhau pam eich bod wedi dewis y ffordd ymlaen ac esbonio sut y bydd yn cyflawni'r amcanion a nodwyd gennych yn gynharach.

**Mae'n bwysig eich bod yn ystyried gwerth am arian.**

- A yw'n werth gwario arian ar hyn?
- A yw'n mynd i wneud gwahaniaeth arwyddocaol i ddigon o bobl i allu ei gyfiawnhau?
- A fydd y prosiect yn gynaliadwy neu a fydd angen mwy o gyllid pan fydd y cyllid gwreiddiol wedi'i wario?

**Peidiwch ag anghofio -** nid oes angen mesur gwerth am arian o reidrwydd mewn £!






Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Achos Masnachol

Mae'r achos masnachol yn edrych ar sut yr ydych yn mynd i gyflawni prif gorff y prosiect a logisteg hyn i gyd. Mae goblygiadau cyfreithiol yn yr achos hwn yn arbennig felly mae'n hynod bwysig eich bod yn gyfarwydd â'r gofynion hyn, yn enwedig caffael, cynllunio a pherchnogaeth.

**Efallai y gwelwch nad oes llawer o gwestiynau ar y pethau hyn bob amser oherwydd tybir bod gennych yr holl rwymedigaethau cyfreithiol hyn ar waith.**

**Os nad oes gennych y pethau priodol yn eu lle, hyd yn oed os ydych yn llwyddiannus gyda'r cyllid cychwynnol, mae'n annhebygol iawn y bydd eich prosiect yn cael ei ariannu yn y pen draw.**

## Cydsyniad / Cynllunio

- Ydych chi wedi sicrhau'r caniatâd cynllunio cywir?
- Ydych chi'n ymwybodol o'r holl gyfyngiadau cynllunio (e.e. AHNE, statws rhestredig)
- Ydych chi wedi sicrhau'r holl drwyddedau/cysyniadau cywir?

## Caffael

Bydd angen i chi wneud yn siŵr bod gennych weithdrefn gaffael ar waith i sicrhau eich bod yn prynu pethau mewn ffordd deg ac agored.

Rheolau Caffael Cyffredinol y Sector Cyhoeddus:

- O dan £5,000 - gallwch fynd at un cyflenwr yn uniongyrchol
- £5-25,000 - fel arfer bydd angen 3 dyfynbris
- Dros £25,000 - bydd angen dilyn proses dendro ffurfiol (mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r platfform GwerthwchiGymru)

Os bydd angen i chi dendro ar gyfer gwaith - mae cymorth a chyngor ar gael ar wefan GwerthwchiGymru.

**Llwyfan GwerthwchiGymru**

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Achos Ariannol

Mae angen deall elfen ariannol prosiect yn llawn a chyflwyno tystiolaeth i ddarparu hyder i'r cyrff dyfarnu y bydd eu cyllid yn cael ei reoli'n briodol.

Bydd angen i chi ddatblygu proses ariannol gadarn sy'n cynnwys incwm a gwariant dros gyfnod y prosiect cyfan, neu nifer penodol o flynyddoedd a bennir gan y cyllidwr. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd cyllidwyr eisiau gwybod sut y bydd y prosiect yn cael ei gynnal yn ariannol unwaith y bydd y cyllid grant wedi'i wario. A fydd y prosiect yn dod â refeniw ychwanegol i mewn neu'n arbed arian a fydd yn ei helpu i barhau i redeg er enghraifft? Maent fel arfer yn edrych i fuddsoddi mewn prosiectau tymor hir, nid ymyriadau tymor byr.

## Llif arian

Bydd y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r arian yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau, sy'n golygu na allwch hawlio'r arian hyd nes y byddwch wedi gwario'r arian ac wedi cyflwyno'r dystiolaeth briodol.

## Tanwariant

Os ydych yn tanwario, mae angen i chi ddeall y rheolau ariannu penodol ar gyfer hynny. Bydd rhai cyllidwyr yn caniatáu i chi wario ar elfennau eraill (trosglwyddiad rhwng categorïau) ond bydd angen eu caniatâd ysgrifenedig penodol arnoch i wneud hynny.

## Arian Cyfatebol

Os allwch chi ddarparu rhywfaint o arian cyfatebol yna bydd hyn yn cael ei ystyried yn ffafriol fel arfer. Meddyliwch am gynnwys amser staff, arian mewnol trwy godi arian, neu gynlluniau benthyca/buddsoddiad eraill.

## Gwybodaeth am Gwmnïau

Gall cyllidwyr ofyn am ffigurau ar werth net y flwyddyn flaenorol, trosiant ariannol, neu falans banc. Mae angen iddynt wirio a oes gennych yr hylifedd ariannol i gyflawni'r prosiect.

## TAW

Llywodraeth y DU sy'n pennu hyn, sef 20% ar hyn o bryd, ac oni bai eich bod wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, yn 'dreth' anadferadwy sy'n rhaid ei thalu ar unrhyw nwyddau a gwasanaethau. Dim ond TAW na ellir ei adennill y gellir ei hawlio yn erbyn Grant. Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, yna dylech allu hawlio'r costau TAW yn ôl - fel arfer gwneir hyn bob chwarter felly, unwaith eto mae angen i chi feddwl am y goblygiadau ar eich llif arian!

## Arian wrth gefn

Mae'n arfer da cael cyllideb wrth gefn rhag ofn y bydd heriau neu faterion nad ydych wedi'u rhagweld.

## Dyfynbrisiau

Mae angen i chi allu dangos tystiolaeth o'r holl ragamcanion ariannol arwyddocaol a'r gofynion y dylech eu cynnwys yn eich cais gyda dyfynbrisiau.

## Tystiolaeth

Mae angen i chi allu dangos tystiolaeth o'r hyn rydych wedi'i wario ar bob hawliad, bydd hyn yn cynnwys anfonebau ac weithiau cyfriflenni banc.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Achos Rheoli

Mae elfen reoli prosiect yn ymwneud â sut rydych chi'n mynd i sicrhau bod eich prosiect yn llwyddiant. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn dangos i'r cyllidwyr bod gennych brosesau a pholisïau cadarn a chredadwy ar waith.

Dylai fod gennych yr holl bolisïau cywir yn eu lle, ar ôl eu datblygu fel rhan o amlinelliad y prosiect.

## Llywodraethu


Bydd angen i chi sicrhau bod gennych gynlluniau rheoli clir a chadarn ar waith. Dylech gael bwrdd ffurfiol gyda'r awdurdod priodol i gyflenwi'r prosiect a chyfarfodydd rheolaidd gyda chyfrifoldeb a chylch gwaith clir.

Dylech hefyd gynnwys gwybodaeth am sgiliau a galluoedd aelodau'r bwrdd, gan gynnwys eu gallu i gefnogi'r prosiect. A oes cynlluniau olyniaeth yn eu lle ar gyfer gwirfoddolwyr allweddol yn gadael neu aelodau bwrdd yn newid? Mae angen i chi ddangos i'r cyllidwr bod gennych fwrdd cryf, sefydlog a galluog a all gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus.

Beth yw cyfansoddiad eich sefydliad? A oes gennych y strwythurau priodol ar waith i dderbyn cyllid?

A ydych yn berchen ar yr adeilad/tir/adnodd yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio yn y prosiect hwn, neu a oes gennych gytundeb rhentu ffurfiol hirdymor ar waith? Fel arfer mae angen yr yswiriant priodol a chyfrifon banc swyddogol, gyda llofnodwyr ar wahân, hefyd.

Dylech hefyd gynnwys yma fanylion unrhyw staff sydd gan y prosiect neu'n debygol o fod ganddynt a beth fydd rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn hwnnw. Peidiwch â diystyru'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni prosiect!



Peidiwch â diystyru'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni prosiect!

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales